Adroddiad Blynyddol Y Maer

Diolchodd y Maer y Cynghorydd Eric Wyn Roberts i'w gyd Gynghorwyr am eu yddiriedaeth ynddo yn ystod ei dymor fel Maer yn 2018-19. Dywedodd y Maer ei fod wedi cael llu o brofiadau diddorol a chofiadwy yn ystod y flwyddyn. Nododd rhai o'r achlysuron:

Beirniadu cystadlaethau amrywiol Regata Pwllheli
Agor Eisteddle Newydd Clwb Pêl-droed Pwllheli
Croesawu Prifardd o Bwllheli a'r darpar Archdderwydd i noson arbennig
o Anrhydeddu Prifardd Cadeiriol Eisteddfod Caerdydd Gruffudd Eifion Owen
Annerch a cherdded Taith Atgofion Pwllheli
Mynychu ac agor Boreau Coffi amrywiol trwy'r flwyddyn.
Mynychu gwasanaeth Sul y Cofio
Ymweliadau âchartref preswyl Plas y Don, Tan y Marian ac Ysbyty Bryn Beryl.
Cymryd rhan yng Ngorymdaith Dewi Sant Pwllheli
Mynychu cyfarfodydd amrywiol a diddorol gan fudiadau gweithgar y dref.

Bu hefyd yn flwyddyn o brofedigaethau i sawl tulu, gan gynnwys marwolaeth Mr Robin Hughes Clerc y Cyngor. Diolchwn am gael eu hadnabod ac am eu cyfraniad mewn gwahanol ffyrdd i wead ein bywydau a'n tref.

Bu'n gyfnod o gyfweld a phenodi Clerc newydd a chroesawu Mr Eric Price i'w swydd. Diolchodd y Maer iddo am ei waith cydwybodol o'r cychwyn cyntaf, gan ddymuno'n dda iddo.

Diolchodd y Maer i'r Cynghorydd Michael Sol Owen a'r Cynghorydd Elin Hywel am eu cymorth ac arweiniad yng nghyfnod anodd i bawb. Diolchodd i bawb am eu cymorth gyda'r tybiau blodau a'r baneri stryd.

Diolchodd y Maer i'r Dirprwy Faer a Maeres, Mici Plam a Glenda Haf am eu cefnogaeth bob amser.

Diolchodd i'r Parchedig Glenys Jones am ei gwaith fel Caplan y Maer ac am arwain a chynnal Gwasnaeth Dinesig Y Maer ac i swyddogion y Capel a phawb a gymerodd ran.

Cynhelir Sul y Maer ar 7fed Gorffennaf 2019 am 10 y bore yng Nghapel Penlan.

Cynhelir Gwasnaeth Sul y Cofio ar ddydd Sul 10fed o Dachwedd yn Eglwys St Pedr am 9.30 y bore.

Diolchodd y Maer i'r holl Gynghorwyr ac i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Dywedodd ei bod wedi bod yn fraint cael cynrychioli'r cyngor a'r dref fel Maer. Dyweodd" Heb os mae natur a dyletswyddau'r cyngor tref a disgwyliadau trethdalwyr yn her sydd ac y bydd yn ein herio yn y dyfodol. Mae'n galonogol bod yna gynghorwyr a thrigolion y gymuned yn parhau i fynnu'r gorau i'r dref a'i phobl".

Dywedodd y Maer bod pob un o'r Cynghorwyr tref yn wirfoddolwyr di-dâl. I'r perwyl hyn, dywedodd Y Mae reo fod ef a'r Dirprwy Faer wedi penderfynu gwrthod derbyn unrhyw gydnabyddiaeth/lwfans ariannol yn eu rôl. Pwy a ŵyr beth fydd dyletswyddau ychwanegol y Cyngor yn y dyfodol, a bydd yn rhaid i eraill benderfynu os ydynt am dderbyn taliad ai peidio.

Dywedodd y Maer "Edrychaf ymlaen gyda iechyd a gras Duw i fy 3ydd tymor fel Maer y dref".

Eric Wyn Roberts
2ail o Fai, 2019.